**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener, 12 Ionawr 2024 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd (wyr) | Y Cynghorydd (wyr) | Y Cynghorwyr (wyr) |
|---|---|---|
| P Downing | V A Holland | S Joy |
| M W Locke | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Gwasanaeth |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: N Furlong ac Y V Jardine

---

## 34 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir.

## 36 Y weithdrefn a argymhellir ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gallu darparu llythyrau o ymddygiad da

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Bwyd adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth Swyddogion Trwyddedu  i gymeradwyo ceisiadau am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat mewn rhai amgylchiadau lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu darparu llythyr ymddygiad da i gefnogi ei gais.

Manylwyd ar y cefndir, y drefn bresennol a materion i'w hystyried.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd:**

1) bydd ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi bod yn byw yn y DU am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy ac nad ydynt yn gallu darparu'r ddogfennaeth berthnasol o'u gwlad enedigol a/neu wledydd lle maent wedi byw am fwy na 6 mis yn cael eu penderfynu gan swyddogion a

2) bydd ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi bod yn byw yn y DU am lai na 5 mlynedd ac nad ydynt yn gallu darparu'r ddogfennaeth berthnasol o'u gwlad enedigol a/neu wledydd lle maent wedi byw am fwy na 6 mis, neu os oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'r cais, yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad.

## 37 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 38 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am ganiatáu Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - AM

Manylodd yr Arweinydd Gweithredol - Tacsis ar y cefndir mewn perthynas ag AM.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd AM, yng nghwmni Mr I, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais AM am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**39 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded gweithredwr hurio preifat - UBL**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar y cefndir  mewn perthynas â chais UBL am Drwydded Gweithredwyr Hurio Preifat.

Darparodd cynrychiolwyr UBL grynodeb cynhwysfawr o'u gweithdrefnau gweithredu ac atebwyd cwestiynau'r Aelodau mewn perthynas â'u cais.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais UBL am Drwydded Gweithredwr Hurio Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.31am

**Cadeirydd**